Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Newid Enw Ymgeiswyr a Myfyrwyr

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg**

## CYNNWYS

1. Cyflwyniad .......... 2
2. Diben y polisi .......... 2
3. Cwmpas y polisi .......... 2
4. Datganiad polisi .......... 2
5. Monitro ac adolygu’r polisi .......... 5
6. Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig .......... 5

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig y dylid eu dilyn i alluogi ymgeiswyr a myfyrwyr, ac o dan amgylchiadau cyfyngedig, cyn-fyfyrwyr y Brifysgol, i newid eu henw ar gofnodion a dogfennaeth swyddogol y Brifysgol.

Mae'r polisi a gweithdrefnau cysylltiedig yn cefnogi cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU a deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth perthnasol yn cynnwys Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Diben y polisi

Mewn ymgais i ddileu ceisiadau a chofrestriadau twyllodrus ac i amddiffyn uniondeb cymwysterau a gyhoeddir gan y Brifysgol, ceisia'r Polisi Newid Enw Ymgeiswyr a Myfyrwyr sicrhau bod enwau ymgeiswyr a myfyrwyr ar gronfa ddata cofnodion myfyrwyr y Brifysgol yn adlewyrchu'n gywir y rheiny a ddangosir ar ddogfennau adnabod swyddogol.

## 3. Cwmpas y polisi

Mae'r polisi yn hysbysu ymgeiswyr, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr y Brifysgol am dystiolaeth ddogfennol y mae'n rhaid iddynt ei chyflwyno i'r Brifysgol cyn y gellir ei weithredu ar gronfa ddata cofnodion myfyrwyr y Brifysgol ac ar unrhyw ddogfennau Prifysgol swyddogol a gynhyrchir wedi hynny. Hefyd, mae'n hysbysu staff y Brifysgol o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn pan fydd ymgeisydd, myfyriwr neu gyn-fyfyriwr yn gofyn i'w henw gael ei newid ar gofnodion a dogfennau swyddogol y Brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), a'i cholegau cyfansoddol, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, y cyfeirir atynt fel Grŵp PCYDDS ac mae'n berthnasol i holl ymgeiswyr, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Grŵp PCYDDS a'i sefydliadau rhagflaenol.

## 4. Datganiad polisi

O dan y gyfraith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, os ydych yn dymuno cael eich adnabod wrth enw gwahanol, cewch newid eich enw unrhyw bryd, ar yr amod nad ydych yn bwriadu twyllo rhywun arall neu gyflawni gweithred o dwyll. Nid oes gweithdrefn gyfreithiol i'w dilyn er mwyn newid enw, yn syml, cewch ddechrau defnyddio'r enw newydd. Gallwch newid eich enw cyntaf neu gyfenw, ychwanegu enwau neu aildrefnu eich enwau presennol.

Fodd bynnag, fel sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau ariannol eraill yn y DU, mae'n ddyletswydd ar brifysgolion i atal twyll ac felly gallent weithredu'r hawl i wneud rhai gofynion yn orfodol. Er mwyn lleihau'r risg o geisiadau a chofrestriadau twyllodrus, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gofyn i bob ymgeisydd wneud cais drwy ddefnyddio'r un enw ag sydd ar eu pasbort, tystysgrif geni, neu dystysgrif priodi.

**Eich Enw Swyddogol**

Mae'n rhaid mai eich enw swyddogol sydd ar eich cais Prifysgol ac mae'n rhaid iddo gyd-fynd â dogfennaeth ffurfiol fel eich tystysgrif geni, pasbort neu weithred newid enw. Caiff data a gedwir gan y Brifysgol mewn cysylltiad â newid enw ymgeisydd neu fyfyriwr ei brosesu yn unol â pholisi diogelu data'r Brifysgol.

**Eich enw 'adnabod'**

Gall enw 'adnabod' neu enw dewisol sy'n wahanol i'ch enw swyddogol gael ei gofnodi ar y system cofnod myfyriwr a'i ddefnyddio ar ohebiaeth benodol oddi wrth y Brifysgol.
Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol y bydd dogfennau swyddogol y brifysgol, yn cynnwys eich tystysgrif ac adysgrif derfynol, yn defnyddio eich enw swyddogol ac nid eich enw 'adnabod' na'ch enw dewisol.

**Cywiro Gwallau Enwau**

Os yw eich enw wedi'i gofnodi'n anghywir ar eich cofnod myfyriwr, megis gwall argraffyddol, dylech ddarparu tystiolaeth o union fanylion eich enw ar ffurf tystysgrif geni, pasbort neu weithred newid enw (gwreiddiol, ardystiedig neu gopi wedi'i lanlwytho i MyTSD). Sylwch na ddylid postio dogfennau gwreiddiol gan nad yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddogfennau gwreiddiol os cânt eu postio neu'u dosbarthu i'r Brifysgol. Os ydych yn fyfyriwr cofrestredig, dylech roi gwybod am y gwallau hyn i Gofrestrfa PCYDDS yn registry@uwtsd.ac.uk, neu eich canolfan gydweithredol a fydd yn cysylltu â Chofrestrfa PCYDDS, er mwyn gwneud y diwygiadau priodol. Os ymgeisydd ydych chi, dylech roi gwybod am y gwallau hyn i'r Tîm Derbyn yn derbyniadau@ydds.ac.uk.

**Newid Enw'n Swyddogol**

Os byddwch yn newid eich enw'n swyddogol tra byddwch yn gwneud cais i PCYDDS neu'n fyfyriwr yno ac rydych yn dymuno i'ch enw newydd gael ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr, rhaid i chi gyflwyno cais ffurfiol yn ysgrifenedig, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol o'r newid enw (gwreiddiol, ardystiedig neu gopi wedi'i lanlwytho i MyTSD). Sylwch na ddylid postio dogfennau gwreiddiol gan nad yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddogfennau gwreiddiol os cânt eu postio neu'u dosbarthu i'r Brifysgol. Os myfyriwr cofrestredig ydych chi, dylech chi gyflwyno'ch cais i Gofrestrfa PCYDDS, yn registry@uwtsd.ac.uk, neu eich canolfan gydweithredol a fydd yn cysylltu â Chofrestrfa PCYDDS, er mwyn gwneud y diwygiadau priodol. Os ymgeisydd ydych chi, dylech gyflwyno'ch cais i'r Tîm Derbyn yn derbyniadau@ydds.ac.uk.

Ymhlith y dystiolaeth ddogfennol briodol, mae, *inter alia:*

i. Pasbort;
ii. Gweithred newid enw;
iii. Tystysgrif priodi / tystysgrif partneriaeth sifil ac archddyfarniad absoliwt / gorchymyn terfynol (ar gyfer newid enw ar ôl priodo / partneriaeth sifil neu ysgariad / gorffen partneriaeth sifil);
iv. Datganiad newid enw statudol;
v. Cyhoeddiad cyhoeddus: copi o hysbyseb mewn papur newydd lleol neu genedlaethol yn datgan eich bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio eich enw blaenorol ac wedi dechrau defnyddio un newydd;

vi. Adroddiad gan yr heddlu neu lythyr cyfreithiwr: os bydd rhaid i chi fabwysiadu ffugenw am resymau personol (yn cynnwys diogelwch personol) tra byddwch yn fyfyriwr yn PCYDDS, dylech ddarparu adroddiad gan yr heddlu neu lythyr cyfreithiwr yn dystiolaeth o'r newid.

Os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig, mae'n rhaid i'r Brifysgol gael copi o'ch pasbort yn dystiolaeth o'r newid enw. Mae'n arbennig o bwysig i fyfyrwyr y mae'n rhaid iddynt gael fisa i astudio yn y DU bod cofnod y Brifysgol o'ch enw yn cyd-fynd â'r enw ar eich pasbort, yn arbennig er mwyn sicrhau cywirdeb eich dogfennaeth CAS.

Pan fo'n berthnasol, bydd cerdyn adnabod myfyriwr newydd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer myfyrwyr sy'n newid eu henw swyddogol neu caiff enw 'adnabod' ei ychwanegu at eu cofnod myfyriwr. Ni chodir tâl am gardiau newydd a gynhyrchir ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymgymryd â newid enw swyddogol o ganlyniad i drawsnewidiad.

**Ailbennu Rhywedd**

Os ydych yn dymuno diwygio eich rhywedd ar eich cofnod myfyriwr, rhaid i chi gyflwyno cais ffurfiol mewn ysgrifen, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol eich bod wedi cael ailbennu eich rhywedd.

Ymhlith y dystiolaeth ddogfennol briodol, mae, *inter alia*:

i) Tystysgrif geni neu fabwysiadu yn eich rhywedd caffaeledig;
ii) Tystysgrif Cydnabod Rhywedd;
iii) Llythyr oddi wrth eich meddyg neu ymgynghorydd meddygol yn cadarnhau bod eich newid rhywedd yn debygol o fod yn barhaol;

Caiff ymgeiswyr a myfyrwyr wneud cais i newid eu cofnod rhywedd ar yr un pryd ag y maent yn gwneud cais i newid enw, ar yr amod bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno.

Caiff y Brifysgol ei llywodraethu gan y gwerthoedd rhywedd a gydnabyddir gan HESA, sef 'Gwryw', 'Benyw' ac 'Arall'. Cydnabyddir na fydd myfyrwyr sy'n uniaethu â bod heb hunaniaeth ddeuaidd ac sy'n dymuno mabwysiadu gwerth 'Arall' efallai'n gallu darparu tystiolaeth wrth wneud cais i ddiwygio'u cofnod rhywedd.

Dylai myfyrwyr cofrestredig sy'n dymuno bod eu rhywedd yn cael ei ddiwygio ar eu cofnod myfyriwr gyflwyno eu cais i Gofrestrfa PCYDDS yn registry@uwtsd.ac.uk, neu eich canolfan gydweithredol a fydd yn cysylltu â Chofrestrfa PCYDDS, er mwyn gwneud y diwygiadau priodol. Gall ymgeiswyr sy'n dymuno diwygio eu rhywedd ar eu cofnod ymgeiswyr gyflwyno eu cais i'r Tîm Derbyn yn derbyniadau@ydds.ac.uk.

Gall myfyrwyr arddangos eu rhagenwau rhywedd wrth ddefnyddio Microsoft Teams ac Outlook heb fod angen gofyn am gymeradwyaeth gan y Brifysgol.

**Newid Enw ar Dystysgrif, Atodiad Diploma, neu Adysgrif Academaidd**

Unwaith y byddwch wedi derbyn eich tystysgrif, atodiad diploma, neu adysgrif academaidd, nid yw'n bosibl diwygio'r enw ar y dogfennau hyn. Yr unig newidiadau ôl-weithredol y gellir eu gwneud yw ble:

- bo camgymeriad gweinyddol wedi digwydd a hysbysir y Gofrestrfa amdano o fewn pedwar mis calendr o gyhoeddi eich dyfarniad;
- rhaid gwneud newid o dan ddarpariaethau Deddf Cydnabod Rhywedd 2004.

Dylai graddedigion sydd wedi newid eu henw ar ôl cwblhau eu cwrs (er enghraifft trwy briodi neu weithred newid enw), ac sy'n dymuno dangos i ddarpar gyflogwr neu sefydliad addysgol bod eu tystysgrif gradd neu lythyr cadarnhau yn perthyn iddyn nhw, sicrhau bod dogfennaeth atodol yn dangos y newid enw yn cael ei ddarparu gyda'r dystysgrif neu lythyr cadarnhau a roddwyd i'r darpar gyflogwr neu sefydliad addysgol.

O dan ddarpariaethau Deddf Cydnabod Rhywedd 2004, os byddwch, ar ôl ymadael â PCYDDS, yn dymuno newid eich enw a rhywedd ar gofnodion y Brifysgol ac yn gwneud cais am dystysgrif, atodiad diploma neu adysgrif academaidd amgen, rhaid i chi gyflwyno cais ffurfiol yn ysgrifenedig, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol o'r newid. Dylid gwneud pob cais i Gofrestrfa PCYDDS yn registry@uwtsd.ac.uk.

## 5. Monitro ac adolygu'r polisi

Caiff y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig eu monitro gan Gofrestra PCYDDS a'u hadolygu'n flynyddol. Caiff unrhyw newidiadau y'u bernir yn angenrheidiol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr i'w cymeradwyo.

## 6. Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig

Dylid darllen y Polisi Newid Enw Ymgeiswyr a Myfyrwyr ar y cyd â pholisïau'r Brifysgol ar ddiogelu data a'r Polisi Derbyn sydd ar gael yn:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i.

Awdur(on) y polisi:

Elin Bishop……………………Teitl Swydd: Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa………………

Rheoli fersiynau dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Adolygiad Blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu. | Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa/ Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn | 13/08/25 |
| 1.2 | Fersiwn derfynol – mân newidiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu. | Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa/ Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn | 03/09/25 |
| 1.3 | Adolygiad blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa/ Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Matthew Curtis, Rheolwr Derbyn/ Andrew Carr, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad | 07/05/26 |
| 2.0 | Fersiwn derfynol wedi'i chymeradwyo gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa/ Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Matthew Curtis, Rheolwr Derbyn/ Andrew Carr, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad | 21/05/26 |

Statws presennol y Polisi: Wedi'i gymeradwyo

Mae'r polisi'n berthnasol i: AU

Dyddiad ei gymeradwyo: 21/05/2026

Dyddiad y daw i rym: 21/05/2026

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS.

***Cymeradwyo***
*Caiff y polisi ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â'r JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data*

*Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio'n cwblhau'r adran isod:*

---

***I'w gwblhau gan y Tîm Polisi a Chynllunio***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gwblhau* ☒

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried: Dim.*

---

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David